# Datganiad Newyddion

***Dydd Llun 11eg o Dachwedd, 2013***

## Gwerth £5m o newyddion ardderchog i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau

***Dychweliad cynllun casglu strategol Cronfa Dreftadaeth y Loteri : Ymateb i'r galw.***

Heddiw mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n cyhoeddi manylion buddsoddiad o £5m gyda'r bwriad o roi cymorth a hwb sylweddol i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau'r DU i ddatblygu'u casgliadau.

Mae'r fenter hon – *Casglu Diwylliannau* – yn adeiladu ar lwyddiant y cynllun *Casglu Diwylliannau* gwreiddiol a weithredwyd chwe mlynedd yn ôl yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr gydag ystod eang o amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Bydd grantiau o rhwng £50,000 a £500,000 i'w cael ar gyfer datblygu casgliadau dros amser trwy gyfrwng pryniadau a dargedir gyda phwyslais ar hyrwyddo gwybodaeth a sgiliau a meithrin chwilfrydedd y cyhoedd.

Dywedodd Fiona Talbott, Pennaeth Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau CDL :

“Mae *Casglu Diwylliannau* wedi bod yn rhan o sgwrs ac ymroddiad cyson am sut y gall Cronfa Dreftadaeth y Loteri helpu amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i sicrhau caffaeliadau ac adeiladu a chryfhau gwybodaeth guradurol ar gyfer y dyfodol. Rydym wrth ein bodd bod yr elfen yma o'n gwaith ariannu wedi ennyn ymateb mor gadarnhaol a'n bod ni'n cynnig cyfleon pellach i feithrin a dyfnhau'r diwylliant casglu.

“Pan lansiwyd cynllun *Casglu Diwylliannau* Cronfa Dreftadaeth y Loteri ym 2007, roedd yn fenter arloesol. Am y tro cyntaf, galluogwyd ymgeiswyr i brynu'r hyn yr oeddent ei angen i ddatblygu casgliadau yn strategol. Bryd hynny ar gyfer amgueddfeydd yn unig y bwriadwyd y cynllun. Bellach rydym wedi'i ehangu i gynnwys archifau a llyfrgelloedd.”

Mae gan y cynllun dri amcan: datblygu casgliadau drwy gaffaeliadau; hybu diwylliant casglu drwy ymchwil a chynyddu sgiliau curadurol; meithrin a chynyddu ymrwymiad y cyhoedd â chasgliadau. Mae gofyn gwario o leiaf 50% o'r grant ar bryniadau.
Un o elfennau arloesol y cynllun yw y bydd ymgeiswyr yn derbyn blaenswm o arian i'w galluogi i gasglu pan fo cyfle prynu'n codi. Gan na fydd angen holi caniatad i brynu eitemau unigol byddant yn gallu gweithredu ynghynt pan gyfyd y cyfle prynu hwnnw.

Mae angen i geisiadau *Casglu Diwylliannau* fod i law erbyn yr 2il o Fai, 2014 er mwyn sicrhau penderfyniadau ym mis Medi 2014.
Mae pecyn ymgeisio arlein ar gael o: http://welsh.hlf.org.uk/casglu

Rhai enghreifftiau o lwyddiannau cyfres gyntaf rhaglen *Casglu Diwylliannau*:

- Prynodd Partneriaeth Amgueddfeydd Yr Arfordir Jwrasig yn Dorset nifer o ffosiliau gan gynnwys Môr-grwban Jwrasig - “un o'r ffosiliau pwysicaf yn y byd” - o Safle Treftadaeth

Arfordir Jwrasig Y Byd

- Ychwanegodd Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon at eu casgliadau'n ymwneud â *HMS Titanic* a'r White Star Line. Galluogodd hyn iddynt adrodd straeon personol goroeswyr yng nghyd-destun digwyddiadau'r canmlwyddiant llynedd.

- Caffaelodd yr Amgueddfa Bywyd Gwledig Seisnig yn Reading dros bedwar cant o wrthrychau'n adlewyrchu bywyd cefn gwlad wedi-rhyfel Lloegr gan gynnwys: Rhaglenni Gŵyl Glastonbury, tegannau Corgi, celfi 'Arts and Crafts' a Land Rover Cyfres 1.

- Casglodd Amgueddfa Hanes Garddio Llundain ymron i 80 o weithiau celf yn darlunio agweddau ar erddi a garddio gan gynnwys lluniau gan y ffotograffydd Martin Parr , printiau gan Anthony Gross a *'Portrait of a Black Gardner'* gan Harold Gilman.

*-Diwedd-*

Gan ddefnyddio arian a godwyd drwy'r Loteri Genedlaethol, bwriad Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) yw gwneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth, pobl a chymunedau ar draws y DU gan helpu i adeiladu economi dreftadaeth gadarn. Rydym yn buddsoddi ymhob agwedd o'n treftadaeth amrywiol, o amgueddfeydd, parciau a lleoliadau hanesyddol i archeoleg, yr amgylchedd naturiol a thraddodiadau diwylliannol. Mae CDL wedi cefnogi 35,000 o brosiectau gyda £5.6bn ar draws y DU.
www.hlf.org.uk

**Am ragor o wybodaeth**,
Cysylltwch â Katie Owen, Swyddfa'r Wasg CDL, ffôn: (020) 7591 6036, ffôn symudol 07973 613820